

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

CYLCH GORCHWYL

- 1.** Adolygu a gwneud adroddiad neu argymhelliad ynghylch Cynllun Heddlu a Throsedd drafft Gogledd Cymru, neu ddrafftio amrywiad i Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a fydd yn cael ei lunio a'i gyflwyno i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("Panel") gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("PCC").
- 2.** Adolygu a rhoi cwestiynau i'r PCC mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Panel, a gwneud adroddiad neu argymhelliad (yn ôl yr angen) ar y cynllun blynyddol.
- 3.** Cynnal gwrandawriad cadarnhau ac adolygiad, gwneud adroddiad neu argymhelliad (yn ôl yr angen) mewn perthynas ag uwch benodiadau arfaethedig i'w gwneud gan y PCC
- 4.** Adolygu a gwneud adroddiad ar y Prif Gwnstabl arfaethedig.
- 5.** Adolygu a gwneud adroddiad neu argymhelliad (yn ôl yr angen) ar y praesept arfaethedig.
- 6.** Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wneir, neu gamau y bydd y PCC yn eu cymryd mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau fel PCC (fel y'i diffinnir yn *Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a newidiadau dilynol i'r Ddeddf honno).
- 7.** Gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r PCC mewn perthynas â'r modd y mae'r PCC yn cyflawni ei swyddogaethau (fel y'i diffinnir yn *Neddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a'r newidiadau dilynol i'r Ddeddf honno)
- 8.** Cefnogi cyflawniad effeithiol swyddogaethau PCC.
- 9.** Cyflawni swyddogaethau cysylltiedig â chwynion am faterion camymddygiad yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i'r Panel dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011*.
- 10.** Penodi PCC dros dro os bydd angen.
- 11.** I wahardd PCC os ymddengys i'r Panel fod y PCC wedi'i gyhuddo yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, neu Ynys Manaw o drosedd sy'n golygu dedfryd o garchar o ddwy flynedd neu fwy.

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

TREFNIADAU A RHEOLAU TREFNIADOL Y PANEL

Cynnwys

Adran 1: Trosolwg	4
1. Cyflwyniad a Threfniadau Gweithredu Cyffredinol	4
Adran 2: Aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	4
2. Aelodaeth: Aelodaeth Etholedig	4
3. Aelodaeth: Aelodau Cyfetholedig Annibynnol	5
4. Aelodaeth: Ymddiswyddo, Diswyddo, Gwaharddiad a Swyddi Gwag	6
5. Aelodaeth: Adolygiad	7
6. Cod Ymddygiad	7
7. Indemniad	7
8. Talu Treuliau	7
Adran 3: Trefniadau Cyfarfodydd	8
9. Penodi Cadeirydd ac Is Gadeirydd	8
10. Cyfarfodydd y Panel	8
11. Cworwm	9
12. Pleidleisio	9
13. Rhaglen Waith	9
14. Adroddiadau'r Panel	9
15. Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Swyddogion yn rhoi cyfrif	9
16. Presenoldeb pobl eraill/Cyfranogiad y Cyhoedd	10
17. Is bwyllgor a grwpiau tasg	10
18. Memorandwm o Ddealltwriaeth	11
19. Ymgymryd â 'swyddogaethau arbennig'	11
20. Cynllun Heddlu a Throsedd	11
21. Adroddiad Blynnyddol	11
22. Uwch Benodiadau	11
23. Penodi Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dros dro	11
24. Praesept Arfaethedig	12
25. Cwynion	13

26.	Gwahardd Comisiynydd Heddlu a Throsedd	13
27.	Gwahardd neu Ddiswyddo Prif Gwnstabl	14
28.	Rheolau Trafodaeth	15
29.	Y Cyhoedd yn tarfu ar achosion	18

Adran 1: Trosolwg

1. Cyflwyniad a Threfniadau Gweithredu Cyffredinol

- 1.1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fydd yr 'Awdurdod Lletyol' ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("Panel").
- 1.2. Bydd y Panel yn cynnwys deg aelod sy'n gynghorwyr ("Aelodau Etholedig") a 3 aelod cyfetholedig annibynnol ("Aelodau Cyfetholedig") Cyfeirir at y ddau fath o aelodau yn hwn fel "Aelodau" .
- 1.3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("Yr Awdurdod Lletyol") fydd yn darparu'r gwasanaethau cefnogi angenrheidiol ar gyfer y Panel i'w galluogi i weithredu ac i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.
- 1.4. O ganlyniad i statws cyfreithiol Panelau Heddlu a Throsedd yng Nghymru fel corff annibynnol o unigolion yn unol â *Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* ("Deddf"), yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol amdanynt.
- 1.5. Er nad ydyw'r Panel yn bwyllgor ar y cyd, mae darpariaethau penodol o'r deddfiad sy'n gymwys i bwyllgorau ar y cyd Awdurdod Lleol neu eu haelodau yn gymwys i'r Panel drwy rinwedd *Rheoliadau Panelau Heddlu a Throsedd (Cymhwyso Deddfiad Awdurdod Lleol) 2012*.
- 1.6. Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yr holl gostau a gyfyd mewn perthynas â 'lletya' y Panel.

Adran 2: Aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

2. Aelodaeth: Aelodau Etholedig

- 2.1. Ystyrir penodi Aelodau Etholedig i'r Panel yn benodiadau cyhoeddus gwirfoddol.
- 2.2. Bydd yr Awdurdod Lletyol yn gwneud trefniadau priodol, fel y'i pennir yn Nhrefniadau'r Panel, ar gyfer sefydlu aelodaeth y Panel.
- 2.3. Mae holl gynghorwyr yn y chwe Awdurdod Lleol yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru yn gymwys i gael eu henwebu i fod yn Aelodau Etholedig o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
- 2.4. Bydd y Panel yn cynnwys deg Aelod Etholedig
- 2.5. Bydd Aelodau Etholedig y Panel fesul Awdurdod Lleol yn cael eu hethol mewn modd sy'n adlewyrchu poblogaeth ardal pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.
- 2.6. Bydd Aelodau Etholedig y Panel Heddlu a Throsedd yn cynnwys y nifer canlynol o aelodau fesul ardal Awdurdod Lleol:
 - 2.6.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2 Aelod
 - 2.6.2 Cyngor Sir y Fflint 2 Aelod
 - 2.6.3 Cyngor Sir Gwynedd 2 Aelod
 - 2.6.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2 Aelod
 - 2.6.5 Cyngor Sir Ddinbych 1 Aelod
 - 2.6.6 Cyngor Sir Ynys Môn 1 Aelod

- 2.7 Bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedau Gogledd Cymru.
- 2.8 Ar ôl yr Etholiad Awdurdod Lleol bydd yr Awdurdod Lletyol yn gwneud argymhellion ar gyfer gwireddu cydbwysedd gwleidyddol y Panel drwy ddefnyddio methodoleg *d'hondt*.
- 2.9 Bydd argymhelliad yr Awdurdod Lletyol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol :
 - 2.9.1 Tabl yn defnyddio methodoleg *d'hondt* sy'n cadarnhau y bydd y seddau ar y Panel ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn cael eu dyrannu ar sail poblogaeth. Y ffigyrau poblogaeth fydd y rhai hynny a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i bennu Setliad Grant Cynnal Refeniw y flwyddyn berthnasol.
 - 2.9.2 Tabl yn defnyddio *d'hondt*, sy'n cadarnhau'r seddau ar gyfer pob grŵp gwleidyddol ar draws Gogledd Cymru i gyd.
 - 2.9.3 Tabl yn dangos y cyfraneddau ar gyfer pob plaid wleidyddol ar draws Gogledd Cymru i gyd fel y maent yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol.
 - 2.9.4 Tabl yn crynhoi cyfanswm y grwpiau gwleidyddol ar gyfer bob Awdurdod Lleol a'r cyfraneddau perthnasol ar gyfer pob grŵp ym mhob awdurdod.
 - 2.9.5 Y dyraniad seddau arfaethedig ar y Panel fesul sir a grŵp gwleidyddol
- 2.10 Bydd argymhellion yr Awdurdod Lletyol yn cael eu trosglwyddo drwy e-bost i Brif Weithredwr pob Awdurdod Lleol dim llai na 5 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r Etholiad Awdurdod Lleol). Bydd Prif Weithredwr pob Awdurdod Lleol yn cael 10 diwrnod gwaith i roi tystiolaeth i'r Awdurdod Lletyol os na allant gefnogi'r argymhelliad.
- 2.11 Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol pob Awdurdod Lleol yn pennu aelodau enwebedig y Panel o bob sir. Bydd tymor yr Aelodau Etholedig yn y swydd yn cael ei gytuno gan bob sir, ac un flwyddyn fwrdeistrefol fydd y tymor lleiaf y gellir cynllunio ar ei gyfer .
- 2.12. Os na ellir cytuno ar aelodaeth y Panel, yn unol â *Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011*, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn enwebu aelodau o Awdurdodau Lleol i'r Panel.
- 2.13 Yr Awdurdod Lletyol fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Ysgrifennydd Cartref am aelodaeth etholedig y Panel
- 2.14 Gall pob Aelod o'r Panel bleidleisio mewn cyfarfodydd.
- 2.15 Bydd unrhyw Aelod Etholedig sy'n cael eu gwahardd rhag cael eu hethol, neu sydd yn aelod, o Awdurdod Lleol, yn cael eu gwahardd rhag bod yn Aelod Etholedig o'r Panel.

3. Aelodaeth: Aelodau Cyfetholedig Annibynnol

- 3.1. Bydd y Panel yn cyfethol 3 aelod annibynnol ("Aelodau Cyfetholed") i'r Panel. Bydd hyd y swydd ar gyfer Aelodau Cyfetholedig tan 31 Hydref o'r un flwyddyn â'r etholiad cyffredinol nesaf o Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Bydd y broses ar gyfer dethol Aelodau Cyfetholedig yn cynnwys cyfnod rhesymol ar gyfer hysbysebu'r swyddi. Er mwyn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y mae'r Panel yn ei chynrychioli, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, bydd hysbysebion yn cael eu gosod mewn cyfryngau sy'n hygyrch i bawb sy'n byw yng ngogledd Cymru. Ni fydd y Panel yn targedu ardaloedd penodol o fewn Ardal Heddlu Gogledd Cymru i ddibenion recriwtio, ond yn hytrach yn trin yr holl ardal yn gydradd.

- 3.2. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd isafswm o 2 wythnos ar ôl dyddiad yr hysbyseb cyntaf.
- 3.3. Bydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu paratoi a'u hanfon at y rhai hynny sy'n gofyn am ffurflen gais.
- 3.4. Y ffurflen gais fydd yr un a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lletyol i recriwtio ar gyfer swyddi gwag arferol.
- 3.5. Bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac un Aelod arall yn erbyn meini prawf cytunedig a thynnir rhestr fer yn unol â hynny.
- 3.6. Bydd y meini prawf cymhwysedd (**Atodiad A**) ar gael yn gyhoeddus ac ni fyddant yn cael eu newid yn y dyfodol oni bai fod rôl y Panel yn newid naill ai'n lleol neu drwy ddeddfwriaeth, neu os bydd effeithiolrwydd gweithredol y Panel yn cael ei gyfaddawdu o ganlyniad i fylchau mewn sgiliau neu wybodaeth, neu, fel sy'n ofynnol dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*, os nad yw'r Panel yn adlewyrchu demograffeg Gogledd Cymru yn ddigonol.
- 3.7. Os na dderbynnir unrhyw geisiadau neu os nad yw'r ceisiadau a dderbynnir yn cyrraedd y meini prawf angenrheidiol, bydd y swyddi gwag yn cael eu hail hysbysebu yn unol ag Adran 3.
- 3.8. Bydd Cadeirydd, Is Gadeirydd ac un aelod arall o'r Panel yn cyfweld yr ymgeiswyr a roddwyd ar y rhestr fer.
- 3.9. Ar ôl y cyfweiliadau bydd y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac un Aelod arall yn gwneud argymhellion i'r Panel. Wrth wneud yr argymhellion hynny bydd y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac un Aelod arall o'r Panel yn ystyried cydbwysedd y Panel yn unol â *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* yn ogystal â'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ychwanegu at allu'r Panel.
- 3.10. Bydd yr Awdurdod Lletyol a Chadeirydd y Panel yn gyfrifol am roi gwybod i'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch y penderfyniad i gyfethol aelodau
- 3.11. Ni chaiff unigolyn fod yn Aelod Cyfetholedig o'r Panel os ydynt yn un o'r canlynol:
 - 3.12.1 Aelod o staff Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
 - 3.12.2 Aelod o staff sifil Heddlu Gogledd Cymru;
 - 3.12.3 Aelod Seneddol;
 - 3.12.4 Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - 3.12.5 Aelod o Senedd yr Alban;
 - 3.12.6 Aelod o Senedd Ewrop;
 - 3.12.7 Aelod o Awdurdod Lleol yn ardal Heddlu Gogledd Cymru.

4. Aelodaeth: Ymddiswyddo, Diswyddo, Gwaharddiad a Swyddi Gwag

- 4.1. Gall unrhyw Aelod ymddiswyddo ar unrhyw adeg, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyngor a'u Hawdurdod Lleol enwebedig (os yw hynny'n briodol).
- 4.2. Gallai unrhyw Aelod gael eu diswyddo gan yr Ysgrifennydd Cartref ar unrhyw adeg, a bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn diswyddo unrhyw Aelod ar gais eu Hawdurdod Lleol enwebedig ar unrhyw adeg.
- 4.3. Gellir diswyddo Aelod Cyfetholedig drwy bleidlais fwyafrif y Panel sy'n bresennol, ar yr amod bod yr Aelod wedi cael dim llai na pedair wythnos o rybudd gyda'r bwriad o ddiswyddo, ac ar yr amod bod yr Aelod â chyfle i wneud sylwadau ar y cynnig. Gall y rhesymau i ddiswyddo gynnwys (ymysg pethau eraill) bod yn absennol mewn 3 chyfarfod dilynol heb ganiatâd gan y Panel, neu o gael eu dyfarnu'n euog o drosedd.

- 4.4. Bydd swydd yn dod yn wag ar y Panel pan fydd Aelod yn ymddiswyddo, ymddeol neu'n cael ei wahardd rhag bod yn Aelod o'r Panel
- 4.5. Bydd pob Awdurdod Lleol yn llenwi swyddi gwag ar gyfer Aelodau Etholedig yn unol â'r trefniadau yn eu cyfansoddiad ac adran 2. Bydd swyddi gwag ar gyfer Aelodau Cyfetholedig yn cael eu llenwi yn unol â'r broses ddethol a amlinellir yn adran 3.

5. Aelodaeth: Adolygu

- 5.1. O fewn deuddeg mis o ethol Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru ("PCC") ar 15fed Tachwedd 2012, bydd y Panel yn adolygu addasrwydd yr aelodaeth yn unol â *Darpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau Panelau Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau a Hysbysiadau) 2012*
- 5.2. Bydd adolygiad o'r aelodaeth yn ystyried yr angen parhaus i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol y Panel.

6. Cod Ymddygiad

- 6.1. Bydd yr holl Aelodau Etholedig gan gynnwys Aelodau (cynghorwyr) cyfetholedig, yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad eu Hawdurdodau Lleol perthnasol. Bydd Aelodau Cyfetholedig yn dilyn Cod Ymddygiad yr Awdurdod Lletyol.
- 6.2. Bydd Aelodau yn dilyn unrhyw brotocolau y bydd y Panel yn cytuno arnynt.
- 6.3. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyda'r awdurdod i ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau o'r Panel.

7. Indemniad

- 7.1. Mae *Atodlen 6, Rhan 3, paragraff 19 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* yn cynnwys darpariaeth sy'n cadarnhau bod pob atebolrwydd sy'n berthnasol i'r Panel, a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, yn atebolrwydd ar yr Ysgrifennydd Cartref ac yn unol â hynny nid yn atebolrwydd ar unrhyw Aelod o'r Panel.

8. Talu Treuliau

- 8.1. Bydd Aelodau'r Panel yn derbyn ffi cyfradd ddyddiol fel cydnabyddiaeth o'r amser a roddwyd i'r gwaith cysylltiedig gyda ac yn mynychu cyfarfodydd. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy ffi ddyddiol o £198.00 (£99.00 am hanner diwrnod), a gaiff eu capio ar uchafswm cyfystyr â 7 diwrnod llawn y flwyddyn.
- 8.2. Gall Aelodau'r Panel hefyd hawlio treuliau teithio ar gyfer dyletswyddau wedi eu cymeradwyo. Bydd cyfraddau teithio ar yr un raddfa a chyfraddau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
- 8.3. Bydd angen i Aelodau'r Panel gwblhau taflenni amser i nodi amser cysylltiedig gyda ac yn mynychu cyfarfodydd. Bydd y rhain yn cael eu hanfon i'r Awdurdod Lletyol, yn ogystal ag unrhyw geisiadau am gostau teithio a chynhaliaeth (bydd rhaid cefnogi'r rhain gyda derbynebau).
- 8.4. Mae dyletswyddau wedi eu cymeradwyo yn cael eu diffinio fel presenoldeb yng nghyfarfod y Panel neu unrhyw rai o is bywllgorau'r Panel, dyletswydd a wneir er mwyn neu mewn cysylltiad â rhyddhau swyddogaethau'r Panel a phresenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu sydd wedi ei gymeradwyo gan y Panel.

- 8.5. Gall aelodau hawlio am ddulliau eraill o deithio (bws, trê'n a thacsi) a rhaid cynnwys derbynebau priodol yn dangos y gwir gost gyda'r ceisiadau. Dylai Aelodau ystyried y dull mwyaf cost effeithiol o deithio bob amser. Rhoddir cynhaliaeth ar gyfer llety dros nos a phrydau i Aelodau'r Panel wrth iddynt gyflawni dyletswydd wedi ei chymeradwyo. Bydd cyfraddau'r gynhaliaeth yr un fath ag a benderfynir gan yr Awdurdod Lletyol.
- 8.6. Bydd treuliau'r Aelodau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol a bydd y manylion ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod Lletyol, y panel a'r OPCC.
- 8.7. Er mwyn sicrhau tryloywder ac i osgoi dyblygu taliadau gan Awdurdodau Lleol, bydd manylion y treuliau hefyd yn cael eu darparu i chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.

Adran 3: Trefniadau Cyfarfodydd

9. Penodi Cadeirydd ac Is Gadeirydd

- 9.1. Bydd Cadeirydd y Panel yn cael ei benodi yng nghyfarfod cyntaf blwyddyn cyngor y Panel a bydd yn cael ei ethol o blith Aelodau Etholedig y Panel yn ystod blwyddyn gyntaf y Panel ac wedi hynny o blith holl Aelodau'r Panel.
- 9.2. Bydd Is Gadeirydd y Panel yn cael ei benodi yng nghyfarfod cyntaf blwyddyn cyngor y Panel a bydd yn cael ei ethol o blith Aelodau Etholedig y Panel yn ystod blwyddyn gyntaf y Panel ac wedi hynny o blith holl Aelodau'r Panel.
- 9.3. Os bydd y Cadeirydd yn ymddiswyddo neu'n cael ei ddiswyddo, bydd Cadeirydd newydd yn cael ei benodi yn y cyfarfod nesaf ac yn cael ei ethol o blith Aelodau'r Panel.
- 9.4. Os bydd yr Is Gadeirydd yn ymddiswyddo neu'n cael ei ddiswyddo, bydd Is Gadeirydd newydd yn cael ei benodi yn y cyfarfod nesaf ac yn cael ei ethol o blith Aelodau'r Panel.

10. Cyfarfodydd y Panel

- 10.1. Bydd pob cyfarfod Panel yn cael ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod gofyniad statudol ei fod yn cyfarfod yn breifat.
- 10.2. Cynhelir o leiaf pedwar cyfarfod cyhoeddus o'r Panel ym mhob blwyddyn cyngor er mwyn ymgymryd â swyddogaethau'r Panel. Yn ychwanegol gellir cynnal cyfarfod arbennig o dro i dro.
- 10.3. Bydd y Panel yn cynnal cyfarfod blynyddol, os yw'n bosibl, rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin bob blwyddyn oni bai rheoliad statudol yn darparu fel arall. Yr eitem gyntaf o fusnes ar agenda'r cyfarfod blynyddol fydd penodi cadeirydd ac is gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 10.4. O leiaf pum diwrnod clir cyn cyfarfod bydd y Swyddog Priodol yn anfon/e-bostio gwŷs at bob Aelod o'r Panel. Bydd y wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod, yn nodi'r busnes fydd yn cael ei drafod ac yn cynnwys yr holl adroddiadau sydd ar gael.
- 10.5. Bydd agenda'r Panel yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Panel o leiaf pum diwrnod clir cyn y cyfarfod a gwefan y PCC. Bydd copïau electronig o'r agenda hefyd yn cael eu hanfon i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ("OPCC") a'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.
- 10.6. Bydd agenda'r Panel yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, fel y bydd holl waith arall y Panel sydd i gael ei gyhoeddi.

10.7. Gall y Cadeirydd alw cyfarfod arbennig. Gall pedwar Aelod o'r Panel neu Swyddog Monitro (Prif Weithredwr) o'r OPCC hefyd alw cyfarfod arbennig drwy Gadeirydd y Panel.

10.8. Bydd cyfarfodydd cyffredin y Panel yn:

10.8.1 Derbyn datganiadau o fudd gan Aelodau

10.8.2 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

10.8.3 Ystyried adroddiadau'r PCC, swyddogion ac Aelodau

10.8.4 Ystyried materion a ddynodwyd yng Nghylch Gorchwyl a Rheolau'r Weithdrefn gan y Panel yn ogystal â pherfformio dyletswyddau statudol eraill y Panel.

11. Cworwm

11.1. Ni ellir cynnal cyfarfod Panel oni bai fod traean o'r holl aelodau yn bresennol (isafswm o 4 Aelod o'r Panel)

12. Pleidleisio

12.1. Bydd pleidleisio yn digwydd yn ôl mwyafrif oni bai bod rheoliadau a wnaed dan *Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* yn dweud fel arall, neu os dynodwyd gofynion o fewn Rheolau Gweithdrefn y Panel.

12.2. Gall yr holl aelodau bleidleisio yng nghyfarfodydd y Panel oni bai eu bod wedi datgan budd mewn mater sy'n gofyn am bleidlais.

13. Rhaglen Waith

13.1. Mae'n rhaid i'r rhaglen waith gynnwys y swyddogaethau a ddisgrifir yng Nghylch Gorchwyl y Panel

13.2. Bydd y Panel yn cymeradwyo rhaglen waith flynyddol a fydd yn ystyried y blaenoriaethau a ddiffiniwyd gan y PCC. Wrth osod y rhaglen waith bydd y Panel hefyd yn ystyried dymuniadau ei aelodau.

13.3. Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bydd y Panel yn ymgynghori â'r opcc wrth lunio rhaglen waith fanwl er mwyn sicrhau bod amserlenni yn briodol ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus.

14. Adroddiadau'r Panel

14.1. Os bydd y Panel Heddlu a Throsedd yn ysgrifennu adroddiad i'w gyflwyno i'r PCC, mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad neu'r argymhellion.

14.2. Mae'n rhaid i'r Panel, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ofyn i'r PCC fel sy'n briodol, o fewn mis o'r dyddiad y bydd yn derbyn yr adroddiad neu'r argymhellion:

14.2.1 Ystyried yr adroddiad neu'r argymhellion

14.2.2 Ymateb i'r Panel yn dweud pa gamau (os unrhyw rai) y mae'r PCC yn bwriadu eu cymryd.

14.2.3 Os bu i Banel gyhoeddi adroddiad neu argymhellion, cyhoeddi'r ymateb

14.2.4 Os bydd y Panel wedi rhoi copi o'r adroddiad neu'r argymhelliad i aelod, rhoi copi o'r ymatebion i'r Aelod.

14.3. Bydd cyhoeddiad adroddiadau neu argymhellion yn amodol ar hepgor unrhyw wybodaeth eithriedig neu gyfrinachol fel y'i diffinnir yn y rheolau ar fynediad at wybodaeth yn *Neddf Llywodraeth Leol 1972* (fel y'i diwygiwyd).

15. Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Swyddogion yn Rhoi Cyfrif

- 15.1. Gall y Panel graffu ar ac adolygu penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn perthynas â rôl y PCC. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni ei rôl graffu, gall y Panel ofyn i'r PCC a staff yr OPCC, ymddangos gerbron y Panel (ar ôl rhoi rhybudd rhesymol) er mwyn ateb unrhyw gwestiynau sydd yn nhyb y panel yn angenrheidiol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.
- 15.2. Mewn achosion ble mae angen i'r PCC neu aelod o staff OPCC fynychu'r Panel dan y ddarpariaeth hon, bydd y Cadeirydd yn eu hysbysu o hynny'n ysgrifenedig gan roi rhybudd o 15 diwrnod cyn y cyfarfod ble bo hynny'n ymarferol. Bydd y rhybudd yn datgan natur yr eitem y mae'n ofynnol iddo ef/hi ddod gerbron y Panel i roi cyfrif yn ei gylch ac yn nodi a oes unrhyw bapurau y bydd y Panel eisiau eu gweld. Os bydd angen gwneud adroddiad i'w gyflwyno, bydd digon o amser yn cael ei roi ar gyfer paratoi'r adroddiad hwnnw.
- 15.3. Os, mewn amgylchiadau eithriadol, na all y PCC fynychu ar y dyddiad angenrheidiol, yna gellir trefnu dyddiad arall ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd.
- 15.4. Os bydd y Panel yn dymuno i'r PCC ddod gerbron y Panel, gall y Panel (gyda rhybudd rhesymol) ofyn i'r Prif Gwnstabl ymddangos gerbron y Panel ar yr un pryd er mwyn ateb unrhyw gwestiynau sydd yn nhyb y Panel yn angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.
- 15.5. Rôl y Panel yw dal y PCC yn atebol. Mae'r PCC yn gyfrifol am graffu ar y Prif Gwnstabl. Yn unol ag adran 15.4 mae'n rhaid i'r Panel ystyried a sicrhau, cyn gofyn i'r Prif Gwnstabl fynychu, bod yn y cais yn cael ei wneud yn unol â rôl a chyfrifoldebau'r Panel.

16. Presenoldeb Pobl Eraill/Cyfranogiad y Cyhoedd

- 16.1. Gall y Panel wahodd pobl eraill yn ychwanegol at y rhai y cyfeirir atynt uchod i'w annerch, trafod materion o bryder ac/neu ateb cwestiynau. Fe all ddymuno clywed gan drigolion, rhanddeiliaid neu gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Panel a swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, a gall wahodd pobl o'r fath i fynychu.

17. Is bwyllgorau a Grwpiau Tasg

- 17.1. Gall y Panel o dro i dro sefydlu grwpiau tasg a fydd yn gweithredu am gyfnodau penodol i ymgymryd â thasgau penodol.
- 17.2. Ni chaiff Is bwyllgor o'r Panel na grŵp tasg ymgymryd â swyddogaethau arbennig y Panel
- 17.3. Yn y paragraff hwn mae 'swyddogaethau arbennig' yn golygu swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb ar y Panel dan ofynion:
 - 17.3.1 *Adran 28(3) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* (craffu ar Gynllun yr Heddlu a Throsedd)
 - 17.3.2 *Adran 28(4) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* (craffu ar adroddiadau blynyddol)
 - 17.3.3 *Paragraffau 10 ac 11 Atodlen 1 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* (adolygu uwch benodiadau)
 - 17.3.4 *Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* (cyhoeddi prae-septau)

17.3.5 *Rhan 1 Atodlen 8 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* (craffu ar benodiad Prif Gwnstabl)

17.4. Bydd y gwaith y bydd is bwyllgor neu grŵp tasg yn ymgymryd ag ef yn cael ei gwmpasu a'i ddiffinio ymlaen llaw, fel y bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith a'r amser ar gyfer riportio ar ganlyniadau'r gwaith.

18. Memorandwm o Ddealltwriaeth (MoU)

18.1. Amh.

19. Ymgymryd â 'Swyddogaethau Arbennig'

19.1. Bydd adroddiadau ac argymhellion a wneir mewn perthynas â'r swyddogaethau a amlinellir yn y Cylch Gorchwyl yn cael eu cyflawni yn unol ag argymhellion y weithdrefn a amlinellir yn adran 14 (adroddiadau'r Panel)

20. Cynllun Heddlu a Throsedd

20.1. Mae'r Panel yn ymgynghorydd statudol ar ddatblygiad Cynllun Heddlu a Throsedd y PCC ("Cynllun") a bydd yn derbyn copi o'r Cynllun drafft, neu amrywiad drafft ohono, gan y PCC.

20.2. Mae'n rhaid i'r Panel:

20.2.1 Gynnal cyfarfod cyhoeddus i adolygu'r Cynllun drafft (neu amrywiad arno), ac

20.2.2 Adrodd neu wneud argymhellion ar y cynllun drafft y bydd yn rhaid i'r pcc eu hystyried

21. Adroddiad Blynyddol

21.1. Mae'n rhaid i'r PCC gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi eu g/weithgaredd yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid anfon yr adroddiad at y Panel er eu hystyriaeth.

21.2. Rhaid i'r Panel wneud sylwadau ar yr adroddiad blynyddol ac i'r diben hwnnw rhaid:

21.2.1 Trefnu bod cyfarfod cyhoeddus o'r Panel yn cael ei gynnal cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl i'r Panel dderbyn yr adroddiad blynyddol

21.2.2 Gofyn i'r PCC fynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad blynyddol ac ateb cwestiynau am yr adroddiad fel y gwêl Aelodau o'r Panel yn briodol.

21.2.3 Gwneud adroddiad neu argymhelliad ar yr adroddiad blynyddol i'r PCC

22. Uwch Benodiadau

22.1. Mae gan y Panel bwerau i adolygu penodiadau arfaethedig PCC y Prif Gwnstabl, Y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Ariannol a'r Dirprwy PCC. Mae'n ofynnol i'r Panel gynnal cyfarfodydd cadarnhau cyhoeddus ar gyfer y swyddi hyn.

22.2. Bydd y Panel yn cael ei hysbysu ynghylch yr angen i gynnal gwrandawriad cadarnhau mewn perthynas ag uwch benodiadau arfaethedig a wneir gan y PCC. Bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn y cyfarfod nesaf o'r Panel oni bai bod amserlen y penodiadau'n galw am wrandawriad cynharach, ac os felly trefnir cyfarfod Panel arbennig

- 22.3. O safbwynt penodiad Prif Gwnstabl, mae'n ofynnol i'r Panel gynnal gwrandawriad o fewn tair wythnos o'r diwrnod y bydd y Panel yn derbyn hysbysiad gan y PCC.
- 22.4. Bydd cyfarfodydd cadarnhau yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, ble bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymddangos er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad. Ar ôl y gwrandawriad bydd yn ofynnol i'r Panel adolygu'r penodiad arfaethedig a gwneud adroddiad yn ei gylch i'r PCC.
- 22.5. Mewn perthynas â gwrandawriad cadarnhau ar gyfer penodiad arfaethedig Prif Gwnstabl, yn ychwanegol at y gofyniad i adolygu ac adrodd, mae'n ofynnol i'r Panel wneud argymhelliaid ar y penodiad ac mae ganddo'r pŵer i roi feto arno.
- 22.6. Ar ôl ystyried y penodiad, bydd gofyn i'r Panel naill ai:
 - 22.6.1 Gefnogi'r penodiad yn ddiamod neu heb unrhyw sylwadau
 - 22.6.2 Cefnogi'r penodiad a gwneud argymhellion; neu
 - 22.6.3 Rhoi feto ar benodiad y Prif Gwnstabl (gyda'r mwyafrif angenrheidiol o o leiaf dau draean o Aelodau'r Panel ar adeg gwneud y penderfyniad)
- 22.7. Os bydd y Panel yn rhoi feto ar benodiad yr ymgeisydd, rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad fod y Panel wedi gwneud hynny gyda rhesymau.

23. Penodi Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dros dro

- 23.1. Mae'n rhaid i'r Panel benodi unigolyn i weithredu fel PCC os:
 - 23.1.1 Nad oes unrhyw un y dal y swydd PCC:
 - 23.1.2 Os yw'r PCC wedi'i analluogi
 - 23.1.3 Os yw'r PCC wedi'i wahardd
- 23.2. Dim ond rhywun sy'n aelod o staff y PCC ar y pryd all y Panel ei benodi/phenodi i fod yn PCC Dros dro.
- 23.3. Wrth benodi rhywun yn PCC Dros dro mewn achosion ble mae'r PCC wedi'i analluogi, mae'n rhaid i'r Panel ystyried unrhyw gynrychioliadau y bydd y PCC yn eu gwneud mewn perthynas â'r penodiad.
- 23.4. Bydd penodiad PCC Dros dro yn darfod pan fydd un o'r isod yn digwydd:
 - 23.4.1 Etholiad PCC llawn amser
 - 23.4.2 Y Panel neu'r PCC Dros Dro yn diddymu penodiad y PCC Dros dro
 - 23.4.3 Mewn achosion lle penodir PCC Dros dro oherwydd bod y PCC wedi'i analluogi, y PCC yn gymwys i ail afael yn y gwaith
 - 23.4.4 Mewn achosion lle penodir PCC Dros dro oherwydd bod y PCC wedi'i wahardd, y gwaharddiad yn cael ei godi

24. Praesept Arfaethedig

- 24.1. Bydd y PCC yn rhoi gwybod i'r Panel beth yw'r praesept y mae'r PCC yn bwriadu ei gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn ariannol. Rhaid i'r Panel adolygu'r praesept arfaethedig a gwneud adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion.
- 24.2. Ar ôl ystyried y praesept, bydd y Panel naill ai yn:
 - 24.2.1 Cefnogi'r praesept yn ddiamod neu heb unrhyw sylwadau
 - 24.2.2 Cefnogi'r praesept a gwneud argymhellion, neu

- 24.2.3 Rhoi fetó ar y praesept arfaethedig (gyda'r mwyafrif angenrheidiol o o leiaf dau draean o Aelodau'r Panel ar adeg gwneud y penderfyniad)
- 24.3. Os bydd y Panel yn rhoi fetó ar y praesept arfaethedig bydd rhaid i'r adroddiad i'r PCC gynnwys datganiad yn dweud bod y Panel wedi rhoi fetó ar y praesept arfaethedig gyda rhesymau. Bydd y Panel yn dymuno cael ymateb i'r adroddiad ac unrhyw argymhellion o'r fath
- 24.4. Os bydd y Panel yn rhoi fetó ar y praesept arfaethedig, bydd rhaid cynnal cyfarfod pellach o'r Panel dim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad. Yn y cyfarfod hwn bydd rhaid i'r Comisiynydd ymateb i ddatganiad y Panel a bydd y datganiad a'r Praesept yn cael eu hystyried gan y Panel yn unol ag adran 24.2.

25. Cwynion

- 25.1. Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("y Panel") gyfrifoldebau statudol ynghylch trin a gwneud penderfyniad o ran cwynion penodol a wneir yn erbyn y PCC a'r DPCC. Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r Weithdrefn Gwyno.
- 25.2. Mae'r Panel wedi dirprwyo ei swyddogaethau i'r Prif Swyddog/Ymgynghorydd Cyfreithiol ("Swyddog Arweiniol") i benderfynu ar y math o gwyn, mewn ymgynghoriad â'r Is-bwyllgor Cwynion a Phrif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC); sef cwyn sy'n gofyn am gael ei datrys yn lleol gan y Panel, neu a ddylid ystyried y gwyn fel 'Mater Ymddygiad' neu'n 'Gwyn Ddifrifol' a'i chyfeirio at yr IOPC er mwyn gwneud penderfyniad. *(Nodyn: Ar ôl derbyn cwyn, y mae'r Swyddog Arweiniol yn ei hystyried yn Fater Ymddygiad neu'n Gwyn Ddifrifol, yna bydd yr Is-bwyllgor Cwynion a Phrif Weithredwr yr OPCC yn cael gwybod a bydd y gwyn yn cael ei chyfeirio at yr IOPC dim hwyrach na diwedd y dydd, yn dilyn y diwrnod y daw'n amlwg bod y Gwyn neu'r Mater Ymddygiad yn un y dylid ei gyfeirio at yr IOPC.)*
- 25.3. Mae'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol, a phenderfyniad terfynol y Panel gyda chwynion, wedi'u dirprwyo i'r Is-bwyllgor Cwynion, y mae'r aelodau yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol Cyfetholedig; bydd y Swyddog Arweiniol yn rhoi cyngor a chymorth i'r Is-bwyllgor Cwynion yn ôl y gofyn. Ymgynghorir â Phrif Weithredwr yr OPCC ar y strategaeth er mwyn cael datrysiad lleol.
- 25.4. Bydd gwybodaeth am gwynion a dderbyniwyd cysylltiedig â'r PCC neu'r DPCC yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr OPCC

26. Gwaharddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

- 26.1. Gall Panel wahardd y PCC os yw'n ymddangos i'r Panel fod:
 - 26.1.1 Y PCC wedi'i gyhuddo o drosedd yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, a
 - 26.1.2 Bod y trosedd yn un â chosb o fwy na dwy flynedd o garchar.
- 26.2. Bydd gwaharddiad y PCC yn cael ei godi unwaith y bydd un o'r canlynol yn digwydd:
 - 26.2.1 Y cyhuddiad yn cael ei ollwng
 - 26.2.2 Y PCC yn cael ei ryddfarnu o'r drosedd
 - 26.2.3 Y PCC yn cael ei euogfarnu o'r drosedd ond ddim yn cael ei ddiarddel dan *adran 66 Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* yn sgil yr euogfarn
 - 26.2.4 Y Panel yn codi'r gwaharddiad

- 26.3. Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at drosedd sydd â chosb o fwy na dwy flynedd o garchar yn cyfeirio at:
- 26.3.1 Drosedd sydd ag uchafswm cosb o fwy na dwy flynedd mewn achos yn ymwneud ag unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 oed, neu
- 26.3.2 Trosedd, yn achos unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 oed, lle mae'r ddedfryd wedi'i phennu dan y gyfraith fel un o garchar am oes.

27. Gwaharddiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl

- 27.1. Bydd y Panel yn cael ei hysbysu os bydd y PCC yn gwahardd y Prif Gwnstabl.
- 27.2. Mae'n rhaid i'r PCC hefyd roi gwybod i'r Panel yn ysgrifenedig o'u bwriad i alw ar y Prif Gwnstabl i ymddeol neu ymddiswyddo ynghyd â chopi o'r rhesymau a roddwyd i'r Prif Gwnstabl dros y cynnig hwnnw
- 27.3. Mae'n rhaid i'r PCC roi copi i'r Panel o unrhyw gynrychioliadau gan y Prif Gwnstabl ynghylch y bwriad i alw arnynt i ymddiswyddo/ddiswyddo.
- 27.4. Os yw'r PCC yn dal i fwriadu galw ar y Prif Gwnstabl i ymddiswyddo, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Panel o hynny (yr 'hysbysiad pellach').
- 27.5. O fewn chwe wythnos o ddyddiad derbyn yr hysbysiad pellach mae'n rhaid i'r Panel wneud argymhelliad yn ysgrifenedig i'r PCC yn nodi a ddylent alw am ymddeoliad neu ymddiswyddiad y Prif Gwnstabl. Cyn gwneud unrhyw argymhelliad gall y Panel ymgynghori â'u Prif Arolygydd Heddluoedd a rhaid cynnal gwrandawriad craffu.
- 27.6. Bydd y gwrandawriad craffu y bydd yn rhaid i'r Panel ei gynnal yn gyfarfod preifat y bydd hawl gan y PCC a'r Prif Gwnstabl ei fynychu i wneud cynrychioliadau mewn perthynas â'r cynigion i alw ar y Prif Gwnstabl i ymddeol neu ymddiswyddo. Gall presenoldeb yn y cyfarfod panel fod yn bersonol, dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo.
- 27.7. Mae'n rhaid i'r Panel gyhoeddi'r argymhelliad y bydd yn ei wneud ar wefan y Panel, gyda dolenni o wefannau'r 6 Awdurdod Lleol arall yng ngogledd Cymru i'r dudalen honno. Bydd copïau o'r argymhellion yn cael eu hanfon at bob un o'r Awdurdodau Lleol a thrwy unrhyw ddull y bydd y Panel yn ei ystyried yn briodol. Bydd argymhelliad y Panel hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y OPCC.
- 27.8. Ni all y PCC alw ar y Prif Gwnstabl i ymddeol neu ymddiswyddo hyd ddiwedd y broses graffu a fydd yn digwydd:
- 27.8.1 Chwe wythnos ar ôl i'r Panel dderbyn yr hysbysiad, os nad yw'r Panel erbyn hynny wedi cyflwyno argymhelliad i'r PCC yn nodi a ddylai ef/hi alw am yr ymddeoliad neu'r ymddiswyddiad neu ddim, neu
- 27.8.2 Pan fydd y PCC yn rhoi gwybod i'r Panel beth oedd ei benderfyniad/phenderfyniad o ran derbyn neu wrthod argymhelliad y Panel mewn perthynas ag ymddeoliad neu ymddiswyddiad y Prif Gwnstabl
- 27.9. Mae'n rhaid i'r PCC ystyried argymhelliad y Panel a gall ei dderbyn neu ei wrthod, gan roi gwybod i'r Panel beth oedd y penderfyniad.
- 27.10. Wrth gyfrifo'r cyfnod o chwe wythnos, anwybyddir y cyfnod ôl etholiad.

28. Rheolau trafodaeth

- 28.1 Dim areithiau nes bydd y cynnig wedi'i eilio: Ni ddylid gwneud areithiau nes ydd y cynigydd wedi cynnig ac esbonio pwrpas ei gynnig, nes bydd y cynnig wedi'i eilio.
- 28.2 Hawl i ofyn am y cynnig yn ysgrifenedig : Os nad yw rhybudd o'r cynnig wedi'i roi eisoes, gall y Cadeirydd ofyn i'r cynnig gael ei nodi ar bapur a'i basio iddo/iddi, cyn iddo gael ei drafod.
- 28.3 Araith yr eilydd: Wrth eilio cynnig neu ddiwygiad, gall Aelod gadw ei h/araith tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth
- 28.4 Cynnwys a hyd yr areithiau: Dylid cyfeirio'r areithiau at y cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt trefn. Ni ddylai unrhyw araith fod yn hirach na 5 munud heb ganiatâd y Cadeirydd.
- 28.5 Pryd y gall Aelod siarad eto: Ni chaiff aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad et tra mae'n destun drafodaeth, ar wahân i:
 - 28.5.1 siarad unwaith ar ddiwygiad a basiwyd gan aelod arall;
 - 28.5.2 cynnig diwygiad pellach os yw'r cynnig wedi'i ddiwygio ers iddo siarad ddiwethaf;
 - 28.5.3 os oedd yr araith gyntaf ar ddiwygiad a gynigiwyd gan Aelod arall, i siarad ar y prif fater (pa un ai a gymeradwywyd y diwygiad y siaradodd amdano neu beidio);
 - 28.5.4 i ddefnyddio ei hawl i ymateb;
 - 28.5.5 ar bwynt trefn; neu
 - 28.5.6 i roi esboniad personol.
- 28.6 Diwygiadau i'r cynigion
 - 28.6.1 Rhaid i ddiwygiad i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig a bydd naill ai'n cyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ail ystyried; i adael geiriau allan; i adael geiriau allan ac ychwanegu geiriau eraill; neu i ychwanegu geiriau, cyn belled nad pwrpas (b) i (ch) yw negyddu'r cynnig.
 - 28.6.2 Dim ond un diwygiad gellir ei gynnig a'i drafod ar unrhyw adeg. Ni ellir cynnig diwygiad arall nes bydd y cyfarfod wedi delio â phob diwygiad a gynigwyd yn flaenorol ond gellir rhoi rhybudd am unrhyw nifer o ddiwygiadau. Gall y Cadeirydd ganiatáu i ddau neu fwy o ddiwygiadau gael eu trafod (ond nid pleidleisio arnynt) gyda'i gilydd os yw ef/hi yn ystyried y byddai hynny yn hwyluso cynnal busnes y Panel mewn modd priodol.
 - 28.6.3 Os nad yw'r diwygiad yn cael ei basio, gellir cynnig diwygiadau eraill i'r cynnig gwreiddiol.
 - 28.6.4 Os yw'r diwygiad yn cael ei basio, bydd y cynnig sydd wedi ei ddiwygio yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Hwn rŵan fydd y cynnig gwreiddiol y bydd diwygiadau pellach yn cael eu cynnig iddo.
 - 28.6.5 Ar ôl i ddiwygiad cael ei basio, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig diwygiedig cyn derbyn unrhyw ddiwygiadau pellach, neu, os nad oes unrhyw gynigion pellach, ei roi i'r bleidlais.
- 28.7 Diwygio cynnig
 - 28.7.1 Gall Aelod addasu cynnig y mae wedi rhoi rhybudd amdano gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

- 28.7.2 Gall Aelod addasu cynnig y mae wedi ei gynnig heb rybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth
- 28.7.3 Dim ond addasiadau y gellir eu gwneud fel diwygiad y gellir eu cynnig.

28.8 Tynnu Cynnig yn ôl: Gall Aelod dynnu cynnig y mae wedi'i gynnig gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd yn ôl. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw Aelod siarad ynglŷn â'r cynnig ar ôl i'r cynigydd ofyn caniatâd i'w dynnu yn ôl os nad ydynt yn gwrthod caniatâd.

28.9 Hawl i ymateb

- 28.9.1 Mae gan y cynigydd hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y cynnig, yn union cyn i'r bleidlais gael ei chynnal.
- 28.9.2 Os bydd diwygiad yn cael ei basio, bydd cynigydd y cynnig gwreiddiol yn cael hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y diwygiad, ond fel arall ni chaiff siarad amdano.
- 28.9.3 Nid oes gan gynigydd y diwygiad yr hawl i ateb i'r drafodaeth ar ei ddiwygiad.

28.10 Cynigion y gellir eu cynnig yn ystod trafodaeth: Pan fydd cynnig yn cael ei drafod ni ellir cynnig unrhyw gynnig arall ar wahân i'r cynigion trefn canlynol:

- 28.10.1 tynnu cynnig yn ôl;
- 28.10.2 diwygio cynnig;
- 28.10.3 symud ymlaen i'r busnes nesaf;
- 28.10.4 rhoi'r cwestiwn gerbron y pwyllgor;
- 28.10.5 gohirio'r drafodaeth;
- 28.10.6 gohirio'r cyfarfod;
- 28.10.7 gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Hawl i Wybodaeth; a
- 28.10.8 pheidio â chlywed eto gan Aelod a enwir, os yw ef/hi yn anwybyddu dyfarniad y cadeirydd dro ar ôl tro drwy ymddwyn yn amhriodol neu drwy rwystro busnes rhag cael ei cynnal yn fwriadol, neu ei g/wahardd o'r cyfarfod os yw ef/hi yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig gael ei dderbyn

28.11 Cynigion Cau

- 28.11.1 Gall aelod gynnig, heb drafodaeth, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith Aelod arall:
- (a) symud ymlaen i'r busnes nesaf;
- (b) cynnig y cwestiwn;
- (c) gohirio'r drafodaeth; neu
- (ch) gohirio'r cyfarfod.
- 28.11.2 Os bydd cynnig i symud ymlaen i'r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y cadeirydd yn credu fod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef neu hi yn rhoi hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ateb am ddim mwy na 3 munud, ac yna rhoi'r cynnig i bleidlais. Os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn, bydd y cynnig gwreiddiol yn dod i ben.
- 28.11.3 Os bydd y cynnig i roi'r cwestiwn gerbron y pwyllgor yn cael ei eilio a bod y cadeirydd yn credu bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi'r

cynnig i bleidlais. Os bydd yn cael ei basio bydd yn rhoi hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ateb, am ddim mwy na 3 munud, cyn rhoi ei gynnig ef neu hi i'r bleidlais.

- 28.11.4 Os bydd cynnig i ohirio'r drafodaeth neu i ohirio'r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y cadeirydd yn credu nad yw'r eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, ac na ellir ei thrafod yn rhesymol ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig i bleidlais heb roi hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ateb.
- 28.12 Pwynt trefn: Gall aelod godi pwynt trefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arno ef neu hi ar unwaith.
- 28.13 Esboniad Personol: Gall Aelod wneud esboniad personol ar unrhyw adeg. Bydd esboniad personol ddim ond yn ymwneud â rhan sylweddol o araith flaenorol gan Aelod sydd wedi ei gamddeall yn y drafodaeth bresennol. Bydd barn y Cadeirydd ar dderbyn esboniad personol yn derfynol.
- 28.14 Yr Iaith Gymraeg
- 28.14.1 Yn holl fusnes y Panel bydd yr un statws a dilysrwydd i'r Iaith Gymraeg a'r Iaith Saesneg
- 28.14.2 Bydd gan bob unigolyn yr un hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg wrth siarad yn y Panel.
- 29 Y Cyhoedd yn tarfu ar achosion
- 29.1 Symud aelod o'r cyhoedd
- Os yw aelod o'r cyhoedd yn tarfu ar achosion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r unigolyn dan sylw. Os ydi ef/hi yn parhau i wneud hyn, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn ei fod/bod yn gorfod gadael yr ystafell gyfarfod.
- 29.2 Clirio rhan o ystafell gyfarfod
- Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, efallai y bydd y Cadeirydd yn galw am glirio rhan ohoni.
- 29.3 Aflonyddwch cyffredinol
- Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n ei gwneud yn amhosibl cynnal busnes arferol, gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyn hired yr ystyrir yn addas.

Atodiad A – Aelodau Cyfetholedig y Panel Heddlu a Throsedd - meini prawf cymhwysedd

Cymhwyseddau:

- Meddwl Strategol:
 - o Y gallu i weld y tu draw i'r manylion a gweld problemau o bersbectif ehangach
- Craffu a Herio:
 - o Y gallu i graffu'n drylwyr a herio'n adeiladol, gan ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth briodol
- Parodrwydd i Dderbyn Newid:
 - o Yn barod i herio'r farn a dderbynnir yn gyffredinol mewn dull adeiladol
- Gallu Dadansoddol
 - o Yn gallu dehongli a chwestiynu deunydd cymhleth, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, ystadegol a manylion am berfformiad
- Cyfathrebu:
 - o Yn gallu egluro sefyllfaoedd yn glir ac yn barod i wrando ac i gynrychioli barn pob carfan o'r gymuned ar faterion plismona.
- Rheolaeth amser effeithiol
 - o Yn gallu adnabod blaenoriaethau a gwneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'i h/amser ei hun ac amser pobl eraill

Sgiliau a Rhinweddau Personol:

- Parch tuag at eraill:
 - o Yn trin pawb gyda thegwch a pharch gan werthfawrogi amrywiaeth
- Unplygrwydd
 - o Yn arddel safonau ymddygiad a moesegol uchel
- Brwdfrydedd a Chymhelliant:
 - o Parodrwydd i ddysgu a datblygu a gwella'i g/wybodaeth a'i d/ddeallwriaeth ei hun
- Gweithio fel rhan o dîm:
 - o Chwarae rôl effeithiol drwy wrando, dwyn perswâd a pharchu barn pobl eraill
- Hunanhyder:
 - o Yn gofyn am ac yn gwrandao ar farn pobl eraill ac yn chwarae rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon

Disgwylir i holl aelodau'r Panel ymgymryd â'u dyletswyddau yn unol ag Egwyddorion Nolan ar safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd disgwyl i Aelodau'r Panel fynychu pob cyfarfod o'r Panel (tua 4-6 bob blwyddyn) ac unrhyw is-bwyllgorau neu grwpiau y byddant yn cael eu penodi iddynt, yn ogystal ag unrhyw weithgareddau dysgu a datblygu perthnasol.